RHAGLEN

Eisteddfod Gadeiriol Crymych a'r Cylch

yn

THEATR Y GROMLECH

dydd Sadwrn, Chwefror 27ain, 2027

Cystadlaethau lleol i ddechrau am 1.00 o'r gloch
a'r cystadlaethau agored am 3.30 o'r gloch

Llywyddion: Mrs Myfanwy Phillips a Mrs Joyce Williams

Beirniaid:

Cerdd: Jessica Robinson Cynan, Caerdydd
Llefaru: Ivoreen Williams, Capel Hendre
Llên a Thlws yr Ifanc: Emyr Davies, Aber-porth
Llên Ysgolion: Nerys Nicholas, Trefdraeth
Cyfeilydd: Jonathan Morgan, B.Mus, L.R.A.M., Y Tymbl
Arweinyddion:
Iola Phillips, Sian Elin Thomas, Anwen Eleri Bowen,
Eifion Daniels, Rhidian Evans a Gwenno Wyn

Mynediad: Oedolion–£4, Plant oed ysgol–am ddim
ac Aelodau Côr–£1

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Swyddogion y Pwyllgor

Cadeirydd: Gwenno Wyn / *Is-Gadeirydd:* Iola Phillips
Ysgrifenyddion: Ann Davies, Fferm y Capel, Mynachlog-ddu
Clunderwen (Ffôn: 01994 419268)
Awen Evans, Rhostwarch, Brynberian, Crymych
(Ffôn: 01239 891637)
Trysorydd: Rachel Philipps James (Ffôn: 01239 841457)
Is-Drysorydd: Delyth Thomas

Am raglenni cysyllter â'r Ysgrifenyddion neu'r Trysorydd.
Darperir lluniaeth. Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

CYSTADLAETHAU
a threfn gweithgareddau'r Llwyfan

CYSTADLAETHAU LLEOL
(Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd Bro Preseli, Cilgerran, Eglwyswrw a Llandudoch.)

1. Unawd – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
2. Llefaru – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
3. Unawd – Blwyddyn 3 a 4. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
4. Llefaru – Blwyddyn 3 a 4. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
5. Unawd – Blwyddyn 5 a 6. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
6. Llefaru – Blwyddyn 5 a 6. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
7. Darllen darn o'r Ysgrythur dan 12 oed (darn byr o unrhyw un o'r Beiblau Lliw). 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
8. Parti Llefaru oed Ysgol Gynradd. 1af Tlws Olew Trefigin ac £20 (rhoddedig gan Sheila a Granville John, Y Gamfa Wen, Blaenffos), 2il £15, 3ydd £10.
9. Parti Unsain oed Ysgol Gynradd. 1af Tlws Cware Trefigin ac £20 (rhoddedig gan Sheila a Granville John, Y Gamfa Wen, Blaenffos), 2il £15, 3ydd £10.
10. Beirniadaethau cystadlaethau llenyddol y plant.

CYSTADLAETHAU AGORED
(Ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn cystadlaethau gwahanol.)

11. Côr Ieuenctid dan 30 oed. 1af Cwpan Her Parhaus Eilir a Martha Rees, Esgairordd, a £50.
12. Unawd – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
13. Llefaru – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
14. Unawd – Blwyddyn 3 a 4. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
15. Llefaru – Blwyddyn 3 a 4. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
16. Unawd – Blwyddyn 5 a 6. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
17. Llefaru – Blwyddyn 5 a 6. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
18. Unawd alaw werin – Blwyddyn 6 neu iau. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
19. Unawd unrhyw offeryn cerdd – Blwyddyn 6 neu iau. (darn dim hwy na phum munud). 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
20. Unawd – Blwyddyn 7-9. 1af £10, 2il £6, 3ydd £4.
21. Llefaru – Blwyddyn 7-9. 1af £10, 2il £6, 3ydd £4.
22. Unawd alaw werin dan 18 oed. 1af £15, 2il £10, 3ydd £5.

23. Llefaru dan 18 oed. 1af Cwpan Her Aled a Lynwen ap Gwynedd a £15, 2il £10, 3ydd £5.

24. Unawd unrhyw offeryn cerdd dan 18 oed (darn dim hwy na phum munud). 1af Cwpan Her Parhaus Eiry a Gary Jones, Boncath a £15, 2il £10, 3ydd £5.

25. Unawd dan 18 oed. 1af Cwpan Her Dewi a Dilys Phillips, Isfoel a £15, 2il £10, 3ydd £5.

26. Cyflwyniad Theatrig i unigolyn Blwyddyn 13 neu Iau. 1af £30, 2il £25, 3ydd £15.

27. Unawd allan o Sioe Gerdd Blwyddyn 13 ac Iau.
1af £30, 2il £25, 3ydd £15.

28. Her Unawd dros 18 oed. 1af Cwpan Her Coffa Parhaus W. R. Evans (rhoddedig gan "Bois y Frenni") a £50, 2il £25, 3ydd £15.

29. Her Adroddiad dros 18 oed. 1af Cwpan Her Teulu Tŷ Preseli a £50, 2il £25, 3ydd £15.

30. Unawd allan o Sioe Gerdd dros 19 oed. 1af Tlws Parhaol Cwmni Fflach a £30, 2il £25, 3ydd £15.

31. Canu Emyn dan 25 oed. 1af Cwpan Her (rhoddedig gan deulu y diweddar Mr a Mrs Gwyn George, Crymych) a £30, 2il £20, 3ydd £10.

32. Cyflwyniad Theatrig i Grŵp Blwyddyn 13 ac iau. 1af £30, 2il £20, 3ydd £10.

33. Deuawd. Agored. 1af Cwpan Her Parhaus er cof am y diweddar Mr Elwyn Vaughan, Coedcefnlas, ac £30, 2il £20, 3ydd £10.

34. Llefaru darn o'r Ysgrythur. Agored. 1af £30, 2il £20, 3ydd £10.

35. Parti i Ddysgwyr. (Llefaru neu Canu). 1af £30.

36. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru:
Ensemble Sioe Gerdd. Cyflwyno cân neu olygfa allan o sioe gerdd Gymraeg wreiddiol. Caniateir 2-8 perfformiwr. Perfformiad heb fod yn fwy na 5 munud.
Gellir defnyddio piano neu gyfeiliant addas neu drac cefndir. Bydd y cystadleuwyr yn gyfrifol am eu cyfeilydd/ion eu hunain. Caniateir canu mewn unrhyw gyweirnod.
Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol cyn 1 Mai, 2027 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol 2027.

37. Parti Llefaru. Agored. 1af Cwpan Her Parhaus (rhoddedig gan y teulu er cof am y diweddar T. H. Phillips, Cigydd, Crymych – un o sylfaenwyr Eisteddfod gyntaf Crymych) a £30.

38. Canu Emyn dros 25 oed. 1af Cwpan Her Parhaus Mrs Rhiannon Lewis, Cenarth, a £30, 2il £20, 3ydd £10.
39. Cenwch im yr Hen Ganiadau. Hunan-ddewisiad. 1af £50, 2il £25, 3ydd £15
40. Prif Gystadleuaeth Gorawl – Côr i ganu dau ddarn cyferbyniol. 1af Cwpan Her Parhaus D. J. Lewis a £150, 2il £75 i'w rannu.

    Cyflwyno Cwpan Her Parhaus "Limousins Preseli" i'w ddal am flwyddyn (rhoddedig gan y Brodyr Vaughan a'u teuluoedd, Coedcefnlas Uchaf a Felin Uchaf, Crymych) i'r cystadleuydd llwyfan mwyaf addawol dan 18 oed ym marn y beirniaid cerdd a llefaru.

CYSTADLAETHAU/DIGWYDDIADAU

(i'w cynnal mor agos â phosib i'r amserau canlynol)

***8.00* – Seremoni Tlws yr Ieuenctid.**

***8.15* – Seremoni Cadeirio'r Bardd.**

***9.00* – Prif Gystadleuaeth Gorawl.**

LLENYDDIAETH a CHYFANSODDI
(gweler Rheolau ac Amodau rhif 9 a 11)

41. Rhyddiaith Blwyddyn 2 ac Iau: "Y Ras".
    1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
42. Rhyddiaith Blwyddyn 3 a 4: "Castell".
    1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
43. Rhyddiaith Blwyddyn 5 a 6: "Dan y Ddaear".
    1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
44. Barddoniaeth Blwyddyn 2 ac Iau: "Adar".
    1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
45. Barddoniaeth Blwyddyn 3 a 4: "Yn y Tŷ".
    1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
46. Barddoniaeth Blwyddyn 5 a 6: "Dreigiau".
    1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
47. Rhyddiaith Blwyddyn 7: "Wrth y Môr".
    1af £10, 2il £6, 3ydd £4
48. Barddoniaeth Blwyddyn 7: "Y Ddinas".
    1af £10, 2il £6, 3ydd £4
49. Rhyddiaith Blwyddyn 8: "Anghofio".
    1af £10, 2il £6, 3ydd £4
50. Barddoniaeth Blwyddyn 8: "Porthladd".
    1af £10, 2il £6, 3ydd £4
51. Rhyddiaith Blwyddyn 9: "Adenydd".
    1af £10, 2il £6, 3ydd £4
52. Barddoniaeth Blwyddyn 9: "Tonnau".
    1af £10, 2il £6, 3ydd £4

53. CYSTADLEUAETH Y GADAIR: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 60 llinell ar y testun "Gwaddol". Gwobr: Cadair fechan a £50. Y gadair yn rhoddedig gan GYNGOR CYMUNED CLYDAU.

54. Englyn: "Man gwyn man draw" 1af £15

55. Telyneg: "Gardd" 1af £15

56. Limrig: "Rwyf yma o hyd wedi'r cyfan'". 1af £10

57. Brawddeg: C - N - E - I - F - A. 1af £10

58. Pedwar Triban neu bedwar Pennill Telyn ar y testun "Eisteddfodau": 1af £15

59. Soned: "Crwydro". 1af £15

60. Geiriau Emyn ar y thema "Canllaw i'n bobl ifanc". 1af £15

61. Erthygl i *Clebran* (Papur Bro'r Preseli) ar unrhyw agwedd o hanes lleol Sir Benfro heb fod dros 750 o eiriau. 1af £25. Cyhoeddir yr erthygl fuddugol yn *Clebran*.

62. Gwerthfawrogiad, heb fod dros 1,000 o eiriau o unrhyw gerdd gan Waldo Williams. Gwobr £30

63. TLWS YR IFANC i rai dan 19 oed: Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf hyd at 2,000 o eiriau. Mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Eisteddfodau Cymru bydd dau waith haeddiannol yn ogystal â'r enillydd yn cael eu cynnig i G E C ar gyfer Cystadleuaeth Tlws yr Ifanc i rai dan 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol (am fwy o wybodaeth gweler gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru). Gwobr: Tlws Parhaus yn rhoddedig gan Lyn ac Audrey Davies, Brynstop, Hermon, £25 a thlws bychan i'w gadw.

Cystadlaethau y Dysgwyr

64. Erthygl i Bapur Bro. Gwobr: £25 (rhoddedig gan Fenter Iaith Sir Benfro)

65. 1. Lefel Mynediad – "Sgwrs ar y bont".
1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (hyd at 100 o eiriau)

2. Lefel Sylfaen – "Mynd am dro". 1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (hyd at 150 o eiriau)

3. Lefel Canolradd / Uwch – "Llythyr cais ar gyfer eich swydd ddelfrydol".
1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (hyd at 200 o eiriau)

(rhoddedig gan Dysgu Cymraeg Sir Benfro)

Y cyfansoddiadau i fod yn llaw'r ysgrifennydd Llên:
Awen Evans, Rhostwarch, Brynberian, Crymych, Sir Benfro. SA41 3TG
erbyn Chwefror 5ed, 2027.

Dyddiad cau Cystadlaethau **41-52 (cynradd ac uwchradd) a 63**
i fod yn llaw yr ysgrifennydd Llên: Awen Evans
erbyn **Chwefror 17eg, 2027**.

RHEOLAU AC AMODAU

1. Bydd pob cystadleuydd yn ddarostyngedig i'r amodau hyn ac i unrhyw amodau eraill a berthyn i unrhyw gystadleuaeth.
2. Bydd barn y beirniaid yn derfynol ac fe ganiateir iddynt atal, rhannu neu gwtogi gwobrau.
3. Bydd y testunau yn agored oni nodir yn wahanol.
4. Rhaid i bob cystadleuydd fod yn yr oedran gofynnol ar ddydd yr Eisteddfod.
5. Ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn cystadlaethau gwahanol.
6. Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r Beirniaid a'r Cyfeilydd. Y mae copïo cerddoriaeth argraffedig sydd o dan hawlfraint yn anghyfreithlon.
7. Ni chaniateir cystadlu ond yn y Gymraeg.
8. Rhaid i bob cystadleuydd llwyfan ddod i'r blaen cyn dechrau'r gystadleuaeth.
9. Y cyfansoddiadau llenyddol i fod yn llaw'r Ysgrifenyddes erbyn Chwefror 5ed, 2027. Rhaid rhoi ffugenwau yn unig ar y cyfansoddiadau, a chyda phob cyfansoddiad amgaeër amlen tan sêl yn cynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cystadleuydd a theitl a rhif y gystadleuaeth â ffugenw'r cystadleuydd arni. Derbynnir cyfansoddiadau drwy ebost at alwyn.evans@btconnect.com mewn atodiad yn unig.
10. Bydd y cyfansoddiadau llenyddol buddugol yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod. Dychwelir y cyfansoddiadau bythefnos ar ôl yr Eisteddfod ond i'r perchennog wneud cais ac amgau amlen â stamp.
11. Ni ddarperir sylwadau ysgrifenedig mewn unrhyw gystadleuaeth..
12. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.
13. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus. Bydd barn y Pwyllgor yn derfynol.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i holl noddwyr yr Eisteddfod.
Diolch hefyd i'r gwragedd am eu gwaith diflino
yn darparu'r lluniaeth drwy gydol y dydd.

NODDWYR YR EISTEDDFOD 2027
(hyd at fynd i'r wasg)

Cyngor Sir Penfro

Cynghorau Cymuned Boncath, Clydau, Crymych a Mynachlog-ddu

Cware ac Olew Trefigin

Clebran

Cymdeithas Waldo

Menter Iaith Sir Benfro

Granville a Sheila John, Y Gamfa Wen

Aelodau Clwb 100

Dysgu Cymraeg Sir Benfro

Wyn Owens

Diolch am nawdd Ymddiriedolaeth Pantyfedwen
ar gyfer y gwobrau.

Eisteddfod Brynberian

DYDD SADWRN, CHWEFROR 13eg, 2027

Ysgrifenyddion: Rhinedd Williams (Ffôn: 07917 138794)
Catrin Phillips (Ffôn: 07976 457558)

Eisteddfod Llandudoch

DYDD SADWRN, MAI 15fed, 2027

Ysgrifenyddion: Mair Volk (Ffôn: 07791 017992)
Terwyn Tomos (Ffôn: 07972 033183)



Argraffwyr E. L. Jones, Aberteifi (01239 612251)